Adroddiad yn dilyn monitro

Lefel y gweithgarwch dilynol: Gwelliant Sylweddol

# Ysgol Pendalar

Ffordd Bethel
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1DU

Dyddiad yr ymweliad: Mawrth 2025

gan

Estyn, Prif Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Canlyniad yr ymweliad

O dan ddarpariaethau Adran 39 (9) Deddf Addysg 2005, mae'n rhaid i bob adroddiad blynyddol i rieni a baratoir gan y corff llywodraethol o dan Adran 30 Deddf Addysg 2002 gynnwys datganiad ar y cynnydd a wnaed wrth roi'r cynllun gweithredu ar waith.

Bernir bod Ysgol Pendalar wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd diweddaraf.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r ysgol o'r rhestr ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### A1 Cryfhau arweinyddiaeth strategol ar bob lefel a sicrhau bod cyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir ac wedi eu dyrannu'n gytbwys.

Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr wedi ailstrwythuro cyfrifoldebau staff ar bob lefel yn effeithiol. Maent wedi adnabod cryfderau aelodau staff unigol ac wedi eu defnyddio'n effeithiol wrth gryfhau'r uwch dîm arwain a chreu haen o reolwyr canol gyda chyfrifoldebau clir a pherthnasol. Mae arweinwyr wedi sicrhau bod gan bob aelod o staff ddisgrifiadau swydd cyfredol. Mae gan bawb lefel o gyfrifoldeb sy'n addas ar gyfer eu profiad a'u medrau. Golyga hyn fod arweinwyr yn deall eu dyletswyddau yn dda ac yn gweithredu'n fwy strategol.

Mae arweinwyr wedi ymweld â nifer o ysgolion ar draws Cymru er mwyn arsylwi arfer dda a mabwysiadu syniadau a phrosesau effeithiol. Maent wedi gweithredu ar yr hyn sy'n fanteisiol gan addasu gweithdrefnau'n  synhwyrol er mwyn llwyddo yng nghyd-destun yr ysgol.

Mae holl staff yr ysgol yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu cyfleoedd a phrofiadau o safon uchel i ddisgyblion. Er enghraifft, mae athrawon unigol wedi bod yn cyd-gynllunio cwricwlwm cyffrous ac ysgogol o dan arweiniad medrus uwch arweinwyr tra bod rheolwyr canol wedi bod yn sicrhau adnoddau fel cyllid sylweddol er mwyn sicrhau teithiau addysgol i ddisgyblion.

Mae arweinwyr wedi gosod strwythur pendant ar gyfer rheoli perfformiad staff. Mae cyfarfodydd cychwynnol yn gwerthuso targedau blaenorol staff yn synhwyrol ac yn gosod targedau defnyddiol ar gyfer y flwyddyn. Mae arweinwyr wedi sicrhau bod y cyfarfodydd yn gyfle gwerthfawr i staff drafod eu anghenion hyfforddiant a'u datblygiad proffesiynol. Fodd bynnag, nid yw'r broses wedi gwreiddio'n  llawn eto, ac arwynebol yw dealltwriaeth ychydig o staff o sut i lunio targdau a monitro cynnydd proffesiynol yn effeithiol.

## A2 Cryfhau gweithdrefnau hunan werthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant.

Mae arweinwyr wedi cydweithio'n effeithiol â swyddogion addysg yr awdurdod lleol a phenaethiaid ysgolion tebyg er mwyn sefydlu amserlen hunanwerthuso gadarn a synhwyrol ar gyfer yr ysgol. Mae'r amserlen yn gynhwysfawr ac yn cynnwys gweithgareddau i fonitro amrediad eang o dystiolaeth. Mae arweinwyr yn cynnwys ystod o leisiau yn eu prosesau hunanwerthuso gan dalu sylw pwrpasol i rieni, staff a disgyblion. Cam tuag at hyn oedd cryfhau rôl y cyngor ysgol. Erbyn hyn, mae disgyblion yn gwybod bod eu barn yn bwysig i'r ysgol ac y bydd staff yn ei hystyried o ddifri. Mae gan ddisgyblion lais cryf, er enghraifft wrth ddewis adnoddau a lliwiau ar gyfer y 'tŷ annibynnol'. O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a bod eu barn yn cyfri. Maent yn sylweddoli bod dewisiadau y maent yn eu gwneud yn annibynnol yn effeithio ar eu bywydau bob dydd.

Mae arweinwyr wedi sicrhau bod yr holl staff wedi cael hyfforddiant ar brosesau monitro ansawdd effeithiol. O ganlyniad, mae staff wedi dechrau cwblhau adroddiadau defnyddiol yn dilyn gweithgareddau monitro. Mae arweinwyr yn craffu ar yr adroddiadau er mwyn sicrhau ansawdd y monitro ac i adnabod agweddau o'r ysgol sydd angen eu cryfhau ymhellach.

Mae prosesau'r ysgol i fesur cynnydd disgyblion wedi gwella ers yr arolygiad craidd. Mae gan yr holl staff ymwybyddiaeth gryf o safonau cyfredol disgyblion a'r cynnydd maent wedi ei wneud. Mae hyn yn galluogi staff addysgu i bennu targedau pwrpasol i bob disgybl. Mae'r wybodaeth hon yn ffurfio rhan bwysig o brosesau hunanwerthuso'r ysgol wrth i arweinwyr fesur effaith eu darpariaeth.

Mae arweinwyr yn defnyddio canfyddiadau'r holl brosesau monitro yn effeithiol i adnabod cryfderau'r ysgol ac agweddau sydd angen eu gwella ymhellach. Maent eisoes wedi adnabod dwy flaenoriaeth briodol ar gyfer cynllun gwella nesaf yr ysgol.

## A3 Cryfhau addysgu a chynllunio ar gyfer datblygu medrau cynyddol disgyblion yn systematig.

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cryf wrth ymateb i'r argymhelliad hwn. Mae arweinwyr wedi cyflwyno strategaethau ysgol gyfan a chyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr er mwyn cryfhau addysgu a datblygu medrau cynyddol disgyblion yn systematig ar draws yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd buddiol i ymweld ag ysgolion eraill er mwyn arsylwi arfer effeithiol. Penodwyd arweinwyr dros dro i gydlynu'r gwaith hwn.

Mae arweinwyr wedi cyflwyno strategaethau effeithiol er mwyn cysoni a chryfhau addysgu sy’n cymell a chefnogi disgyblion. Mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu buddiol a phwrpasol ac mae hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau cyfathrebu, llythrennedd, rhifedd a chymdeithasol.

Mae staff addysgu yn cynllunio’n effeithiol i gefnogi dilyniant a pharhad ym medrau cyfathrebu, llythrennedd, rhifedd, annibyniaeth a galwedigaethol disgyblion mewn gweithgareddau ysgogol. Er enghraifft, mae disgyblion yn mwynhau datblygu eu medrau llythrennedd trwy wrando ar storïau ac ailadrodd y storïau hyn trwy amrywiol gyfryngau. Mae ychydig o ddisgyblion yn darllen ar goedd yn hyderus ac yn trafod yr hyn a ddarllenant yn hyderus gyda’u cyfoedion.

Mae’r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o fframweithiau asesu addas i fesur cynnydd disgyblion. Mae’r wybodaeth o’r asesiadau hyn yn rhoi dealltwriaeth glir i staff o gynnydd disgyblion yn eu medrau. Mae staff yn dechrau gwneud defnydd pwrpasol o’r deilliannau hyn er mwyn cynllunio ar gyfer camau nesaf y dysgu. Mae hyn wedi gwella dealltwriaeth staff addysgu o bwrpas pob gweithgaredd dysgu.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn rhoi sylw bwriadus i holl ystod anghenion y disgyblion, gyda ffocws penodol ar y llwybr dysgu perthnasol ar gyfer diwallu anghenion yr unigolyn. Mae arweinwyr wedi cynnwys cyfraniadau gwethfawr gan athrawon tuag at bennu’r llwybr a’r dosbarth dysgu mwyaf addas i ddisgyblion. Mae’r strategaeth hon yn sicrhau bod disgyblion yn cael mynediad at weithgareddau buddiol sy’n adlewyrchu diddordebau ac anghenion unigol disgyblion ac yn eu hysgogi i wneud cynnydd cadarn yn eu dysgu.

## A4 Sicrhau cyfleoedd cadarn i ddisgyblion ddatblygu medrau byw yn annibynnol a symud ymlaen i’r cam nesaf yn eu bywyd.

Mae’r ysgol wedi gwneud cynnydd cadarn wrth ymateb i’r argymhelliad hwn. Ers yr arolygiad, mae arweinwyr wedi dechrau cynllunio a datblygu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau byw yn annibynnol ar draws y cwricwlwm, sy’n eu paratoi’n bwrpasol ar gyfer y cam nesaf yn eu bywyd. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau hunanreoli.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion darged unigol pwrpasol sy’n ymwneud â datblygu eu hannibyniaeth. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn erbyn y targedau hyn. Mae disgyblion yn mwynhau dathlu eu llwyddiannau o ran eu hannibyniaeth wrth dderbyn gwobr ‘Pawen Pero’ o fewn gwasanaethau wythnosol. Mae bron bob un o’r disgyblion hŷn yn astudio ystod o gyrsiau galwedigaethol sy’n arwain at ennill unedau o gymwysterau buddiol iddynt. Mae’r rhain yn cynnwys cyrsiau byw yn annibynnol a medrau bywyd a gwaith.

Mae arweinwyr wedi cynllunio cyfleoedd buddiol o fewn y cwricwlwm a thrwy brofiad gwaith yn yr ysgol ac o fewn y gymuned i hybu annibyniaeth disgyblion o fewn tasgau a chyfleoedd pwrpasol sydd wedi eu teilwra'n bwrpasol i anghenion unigol disgyblion. Mae hyn yn cynnwys disgyblion iau yn paratoi bwyd ac yn gweini yn 'Caffi Dalar' yn yr ysgol a disgyblion hŷn yn gwirfoddoli mewn canolfannau garddio ac mewn canolfan chwarae golff leol. Mae'r ysgol wedi sefydlu cwmni 'Menter Dalar' sy'n rhoi cyfleoedd buddiol i ddisgyblion  greu adnoddau a thyfu cynnyrch i'w werthu. Mae disgyblion hŷn yr ysgol wedi cael cyfleoedd i fynychu ffeiriau gyrfaoedd ac wedi ymweld ag ystod o gyflogwyr lleol i ddysgu am gyfleoedd byd gwaith yn y gymuned leol. Penodwyd swyddog cynorthwyo cyflogaeth gan yr ysgol i gefnogi'r gwaith hwn.

Mae disgyblion hŷn yr ysgol wedi cael cyfleoedd gwerthfawr i gynllunio a mynychu teithiau preswyl i Lerpwl a Llundain. Mae'r cyfleoedd hyn yn sicrhau her briodol i ddisgyblion ynghyd â rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu ystod o fedrau pwysig fel defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, annibyniaeth, cyfathrebu ag eraill, datrys problemau a medrau meddwl.

Addaswyd adeilad a thir yr ysgol i ychwanegu 'tŷ annibynnol' er mwyn i ddisgyblion ymarfer eu medrau byw yn annibynnol. Mae'r disgyblion wedi cyfrannu syniadau gwerthfawr wrth gynllunio'r adnodd newydd hwn.

## A5 Cryfhau rôl y corff llywodraethol fel bod eu dealltwriaeth o gryfderau a meysydd i wella'r ysgol yn eu galluogi i weithredu'n effeithiol fel cyfeillion beirniadol.

Ers yr arolygiad craidd, mae'r corff llywodraethol wedi gweithio'n ddiwyd er mwyn adnabod cryfderau'r  ysgol a'r agweddau sydd angen eu cryfhau ymellach yn gywir. Maent wedi ymgymryd â chyfrifoldebau gwahanol er mwyn olrhain cynnydd yr ysgol yn erbyn bob argymhelliad. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o sefyllfa gyfredol yr ysgol.

Maent wedi mynychu ystod eang o hyfforddiant er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u dyletswyddau statudol ac yn gwybod sut i herio'r ysgol yn effeithiol er mwyn ei chefnogi a'i chynorthwyo i wella. Erbyn hyn, maent yn gorff sy'n myfyrio'n  aml ar eu rôl ac yn ceisio darganfod yn rheolaidd beth maen nhw'n ei wneud yn dda a sut maen nhw'n medru gwella. Mae'r corff llywodraethol wedi recriwtio aelodau newydd i'w mysg sydd yn dod ag arbenigeddau gwahanol er mwyn ehangu gallu'r llywodraethwyr i gynorthwyo a herio'r ysgol.

Maent yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd sy'n cael eu cofnodi'n effeithiol gan nodi camau gweithredu perthnasol. Mae'r pennaeth yn dosbarthu adroddiadau defnyddiol i bob aelod cyn cyfarfodydd llawn sy'n crynhoi sefyllfa'r ysgol ac yn paratoi'r aelodau ar gyfer holi cwestiynau perthnasol. Maent wedi ailsefydlu is-bwyllgorau sydd yn cwrdd yn rheolaidd; er enghraifft, mae'r is-bwyllgor cyllid yn cwrdd cyn bob cyfarfod llawn er mwyn dadansoddi a rhannu'r sefyllfa gyllidol gyfredol gyda phob aelod.

Mae'r llywodraethwyr yn ymwybodol o rinweddau a chryfderau arweinwyr yr ysgol a'r modd maen nhw'n cydweithio'n effeithiol wrth yrru gwelliannau. Yn ogystal, maent yn ymwybodol o swydd ddisgrifiadau bob aelod o staff a'r disgwyliadau sydd ohonynt.

Mae aelodau o'r corff llywodraethol yn cynnal teithiau dysgu rheolaidd sydd â ffocws penodol. Mae hyn yn eu galluogi i weld effaith penderfyniadau strategol fel cyflwyno cynlluniau gwaith newydd ac maent yn siarad yn hyddysg am effaith mentrau newydd ar lawr dosbarth. Maent yn croesawu arbenigwyr allanol i siarad â'r corff llawn ac i gynnal teithiau dysgu gyda nhw.

Mae'r llywodraethwyr yn fwy parod i herio'r ysgol wrth drafod penderfyniadau strategol. Er enghraifft, maent yn llwyr ymwybodol o'r holl newidiadau sydd wedi digwydd ers yr arolygiad craidd, a'r holl fentrau newydd sydd wedi eu cyflwyno. Maent yn ystyried lles y staff wrth holi rheolwyr am amseriad ac effaith y newidiadau hynny.

Erbyn hyn, mae'r llywodraethwyr yn gweithredu'n rhagweithiol. Maent yn herio arweinwyr yn gyson i esbonio a chyfiawnhau penderfyniadau a datganiadau. Maent yn wybodus iawn am sefyllfa'r ysgol o ran arweinyddiaeth, darpariaeth, safonau a chynnydd, ac maent yn gweithredu'n effeithiol fel cyfeillion beirniadol.

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**